Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023

**Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Comisiwn a sefydlwyd ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac a ailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae darpariaethau Deddf 2013 yn gysylltiedig â'r Comisiwn yn disodli'r rheiny yn Neddf 1972.

Diben y Comisiwn yw:

> Monitro ardaloedd a threfniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

O dan Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolygon o drefniadau etholiadol prif gynghorau Cymru unwaith bob 10 mlynedd o leiaf ac mae'n cynnal ei arolygon trwy gyfrwng ymgynghori â'r prif gynghorau, cynghorau cymuned a phartïon eraill â buddiant, gan gynnwys y cyhoedd.

Mae'r Comisiwn yn meddiannu un llawr mewn adeilad swyddfa ac nid yw ei swyddogaethau'n uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a rheoli tir, sy'n golygu bod y Comisiwn yng nghategori Grŵp 1.

Er bod yr adeilad yn cael ei reoli gan y landlord, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am ei bolisïau a'i arferion amgylcheddol mewnol ei hun sy'n gysylltiedig â'i swyddogaeth.

Mae'r Comisiwn yn cymryd camau pendant i ddilyn polisïau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o fentrau i leihau effaith amgylcheddol, fel sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant ar ddatblygu cynaliadwy. Yn flaenorol, ceisiodd y Comisiwn gyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, ond mae bellach wedi ymgorffori ei gofynion yn rhan o'i fusnes arferol. Mae'r Comisiwn hefyd yn parhau i weithredu polisïau caffael cynaliadwy ac yn parhau i gynnal lefel tri'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy yn y meysydd allweddol.

Amlinellir agenda strategol Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n pwysleisio'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag atynt: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy ffyniannus ac arloesol; cymunedau mwy diogel a chynhwysol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd cydnerth lle y defnyddir ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy a chymdeithas sydd ag ymdeimlad byw o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol ledled Cymru a bydd yn ymdrechu i ystyried yr ymrwymiad hwnnw wrth wneud unrhyw argymhellion.

**Amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru**

Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Camau gweithredu:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cadw at yr ymrwymiadau ac yn arfer gofynion y Ddraig Werdd yn rhan o fusnes fel arfer
- Parhau i gyflawni ei swyddogaeth gaffael trwy 'Bolisi Caffael Cynaliadwy' y Comisiwn
- Parhau i gyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff trwy hyfforddiant a diweddariadau mewn cyfarfodydd tîm misol

Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Camau gweithredu:

- Parhau i ddarparu cyfleusterau ailgylchu yn y swyddfa
- Sicrhau bod yr holl archebion argraffu'n 50/50 (50% o'r deunydd wedi'i ailgylchu)
- Defnyddio cyflenwyr lleol, lle y bo'n bosibl
- Annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lle y bo'n bosibl
- Cefnogi beicio i'r gwaith ar gyfer staff sydd â diddordeb
- Darparu cyfrifiaduron sy'n defnyddio llai o bŵer
- Parhau i ddefnyddio technolegau cyfarfod rhithwir i leihau ôl troed carbon cyffredinol y Comisiwn

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Camau gweithredu:

- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ynglŷn â bioamrywiaeth
- Darparu hyfforddiant a datblygiad i staff sydd â diddordeb mewn materion bioamrywiaeth

**Adolygu'r Ddyletswydd Adran 6**

Bydd Dyletswydd Adran 6 y Comisiwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn a chaiff ei hadlewyrchu yng Nghynllun Gweithredol y flwyddyn ganlynol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg